

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD A'R NOS LUN 30AIN O IONAWR 2023 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

1: PRESENNOL: Y Cyngorwyr Ceri Davies (Cadeirydd), Philip Williams, Rhian Evans, Ian Evans, Rhian Jones, Manon Davies, Geraint Jones, Arwel Davies, Bari Evans ynghyd a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorydd Sir Ddinbych Elfed Williams.

3. DDATGAN DIDDORDEB: Dim.

4. TRAFODAETH GYDA SWYDDOG DIGIDOL CYNGOR SIR DDINBYCH, MR PHILIP BURROWS.

Croesawodd y Cadeirydd i Mr Burrows am fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Derbyniwyd yr adroddiad canlynol oddi wrth Mr Burrows:-

Yn dilyn diweddariadau diweddar gan Openreach a Llywodraeth Cymru ynglŷn â chysylltedd y rhyngwyd yng Nghymru. Rwyf wedi llunio adroddiad ar gyfer ardal o fewn eich Cyngor Cymuned chi.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynnydd i'r cynllun taleb Gigabit sy'n galluogi cymunedau gwledig i gynnwys y talebau mewn cronfa i dalu am osod cysylltedd rhyngwyd seiliedig ar ffibr. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy raglen Openreach a elwir yn 'Partneriaeth Cymuned Ffibr'. Bydd gwerth y daleb newydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan. Mae preswylwyr lleol neu gynghorydd cymuned angen hyrwyddo'r Partneriaethau Ffibr Cymunedol hyn gydag Openreach. Fel Swyddog Digidol Cyngor Sir Ddinbych rhan o'm cylch gorchwyl yw helpu'r grwpiau cymunedol hyn, eu cynghori a'u cefnogi drwy gydol y broses Openreach.

Y pwrpas ddod i siarad gyda'r Cyngor Cymuned am y cyfleoedd yn eich ardal chi a'r gefnogaeth y gallaf ei rhoi, gan obeithio y gallwn weithio gyda'n gilydd i roi gwybodaeth i'ch trigolion a'ch busnesau am eu dewisiadau ac yn y pen draw dod â chysylltiadau rhyngwyd cyflym a dibynadwy i bob un o'ch cymunedau.

Mae'r adroddiad ynghlwm yn cynnwys gwybodaeth ar:

Nifer yr eiddo sydd yn derbyn llai na 30Mbps ac nid ydynt mewn cynllun uwchraddio. Mae Openreach a'r Llywodraeth yn galw'r rhain yn 'Safleoedd Gwyn'.

Mae diweddariad ar raglen gosod Ffibr Llywodraeth Cymru wedi cael ei ymestyn tan fis Mawrth 2023.

Diweddariad am Raglen Ffibr LFFN sydd yn ei ail gam yn Sir Ddinbych.

Map Openreach yn dangos eu cynlluniau ymestyn.

Nifer yr eiddo yn yr ardaloedd Cyngorau Tref a Chymuned bresennol sydd yn gallu cael cysylltiad rhyngwyd ffibr sydd yn cynnig hyd at 1,000Mbps.

Diweddariad ar unrhyw Partneriaeth Ffibr Cymunedol Openreach yn yr ardaloedd Cyngor Tref a Chymuned.

Eglurhad o'r dewisiadau cysylltedd gwahanol sydd ar gael i fusnesau a phreswylwyr yn Sir Ddinbych.

Gwybodaeth ynglŷn â sut mae Partneriaethau Ffibr Cymunedol Openreach yn gweithio.

Y cam nesaf bydd Mr Burrows yn paratoi adroddiad ysgrifenedig gyda'r rhestr o'r 'Safleoedd Gwyn' am gymorth y Cyngor Cymuned i ddosbarthu'r adroddiad iddynt.

Diolchwyd y Cadeirydd i Mr Burrows am fod yn bresennol yn y cyfarfod.

5. ETHOLAETH Y CYNGOR A'R BROSES O GYFETHOL.

Nid oedd yna unrhyw ymgeisydd i'r sedd wag yn bodoli ar y Cyngor i'w ystyried yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

6. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 28ain o Dachwedd 2022 yn gywir gan yr aelodau.

7. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA.

Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl cadarnhad Ben Wilcox-Jones o'r lleoliad camera cyflymder dros dro yn Llanrhaeadr.

8. GYNLLUN "COMMUNITY LOG CABIN" YN LLANRHAEADR ODDI WRTH FIONA JONES.

Derbyniwyd manylion diweddaraf oddi wrth Fiona Jones ynglŷn ar gynllun "Community Log Cabin" ar dir Ysgol Bro Cinmeirch yn Llanrhaeadr. Maent wedi derbyn cefnogaeth arian trwy grantiau "Gronfa Wynt Clocaenog" i'r project ar yr amod bod yna 100 o bobol wedi arwyddo i gefnogi'r prosiect. Mae'r mudiad wedi trefnu cyfarfod cyhoeddus yn yr King's Head yn Llanrhaeadr ar 31ain o Ionawr 2023 i drafod y prosiect ymhellach a hefyd wedi paratoi holiadur i'w lenwi er mwyn cael yr 100 o arwyddion maent eu hangen i fynd ar gais ymhellach.

9. PANEL WYBODAETH YN LLANRHAEADR.

Penderfynwyd holi y cyn Cadeirydd Elfed Williamsynglŷn a pwy fydd yn mynd a'r mater am y panel wybodaeth yn ei flaen gan nad yw bellach ar bwyllgor y ffynnon.

10. 2023 PROSIECT DOLYDD BLODAU GWYLLT CYNGOR SIR DDINBYCH.

Derbyniwyd y manylion canlynol oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych trwy law ein Cynghorydd Sir Ddinbych, Elfed Williams:-

"Ysgrifennaf atoch ynglŷn â phrosiect Dolydd Blodau Gwyllt, rhan o'r rhaglen Newid Hinsawdd a Newid Ecologol. Y tymor nesaf, mae 40 safle posibl arall wedi eu cynnig i'w cynnwys yn y prosiect ac rydym yn gofyn am eich adborth arnynt. Bydd hyn yn dod â dolydd blodau gwyllt y prosiect i gyfanswm o bron 140 safle ac oddeutu 86 erw ar gyfer y flwyddyn 2023.

Os byddant yn cael eu cynnwys, bydd pob un o'r safleoedd hyn yn cael eu rheoli mewn modd gwahanol, gan beidio â thorri gwair mor aml, i greu mannau blodau gwyllt ar dir y cyhoedd. Nod hyn yw cynyddu bioamrywiaeth yn unol â'n Hargyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecologol a gyhoeddwyd yn ddiweddar a blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol ar gyfer yr Amgylchedd.

Mae'n ofynnol wrth reoli dolydd blodau gwyllt na fydd torri gwair yn digwydd rhwng mis Mawrth a mis Awst bob blwyddyn, sy'n galluogi digon o amser i'r blodau gwyllt dyfu, blodeuo a hadu. Ar gyfer y safleoedd hyn, bydd y tîm bioamrywiaeth yn monitro'r twf a'r gwellhad bioamrywiaethol bob mis a dim ond y border o amgylch y safleoedd hyn y bydd Strydoedd yn ei dorri yn ystod yr amser hwn. Yna, bydd y safleoedd yn cael eu torri'n llawn ar ddechrau fis Medi.

Os bydd y safleoedd arfaethedig hyn yn cael eu cynnwys, bydd y prosiect Dôl Blodau Gwyllt 2023 yn cynnwys safleoedd ym Modelwyddan, Corwen, Dinbych, Llangollen, Llanrhaeadr, Nantglyn, Prestatyn, Pwllglas, Rhewl, Rhuddlan, Y Rhyl, Rhuthun, Llanelwy a Trefnant. Mae pob safle newydd arfaethedig ar gyfer 2023 wedi eu rhestru yn y daenlen ynghlwm ac wedi eu strwythuro yn ôl ward. Mae yna gynlluniau lleoliad pellach hefyd wedi eu cynnwys yn y ddogfen Word a thudalen gwefan ar beth gall preswylwyr ei ddisgwyl o'r safleoedd hyn y gellir ei weld [yma](#)."

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau i'r prosiect.

11. UN LLAIS CYMRU - "ARWEINIAD AR BARATOI CYNLLUN HYFFORDDIANT CYNGOR GAN GYNNWYS TEMPLED AR GYFER CYNLLUN".

Cytunwyd y Cyngorwyr Ian Evans a Barri Evens fynychu'r hyfforddiant Cod Ymddygiad - Modiwl 9 ar 15fed o Chwefror 2023.

12. THRAFOD E-BOST SHEILA HUGHES.

Derbyniwyd e-bost oddi wrth drigolyn Llanrhaeadr yn gofyn am:-

A: Bin Ysbwriel cyhoeddus ar y Gilfa'n wrth Bontgarreg.

B. Lledu'r llwybr troed rhwng Maes Hwylfa a Bro Aled.

C. Amserlen am symud yr arwydd 30 mph ochr Rhuthun yn cael ei symud.

Penderfynwyd yrru llythyr i Ms Hughes yn cadarnhau fod angen iddi drafod y bin sbwriel a lledaenu llwybr gyda Elfed fel Cyngorydd lleol (ond y gallwn ni hysbysu'r Cyngor os yw'r llwybr angen ei glirio), ein bod yn diweddarau Ms Hughes am yr arwydd cyflymder, ac ein bod hefyd yn diolch iddi am ei gwaith yn y gymuned yn casglu sbwriel ac ati.

13. MATERION CYLLID.

A: Diweddaraf Banc y Cyngor £19,872.45.

B. Derbyniwyd rhan olaf 2022/23 Precept y Cyngor £5,280.00.

C. Rhoddwyd awdurdod i'r taliadau canlynol:-

1. Dau ffi misol Banc yr HSBC £10.00.

2. Gyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Rhagfyr 2022 £502.10.

3. HM Revenue & Customs am PAYE am y chwarter yn diweddu 31ain o Rhagfyr 2022 £125.40.

4. Cyngor Sir Ddinbych am gostau'r etholiadau'r Cyngor Mai 2023 - 150.79.

14. CHADARNHAU'R PRECEPT Y CYNGOR AM Y FLWYDDYN ARIANNOL 2023/24.

Ar ôl trafodaeth ynglŷn â'r cyllid y Cyngor am y flwyddyn ariannol bresennol (2022/2023) a'r amcangyfrif am y flwyddyn ariannol 2023/2024, penderfynwyd codi Treth y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2023/2024 o £30 at £33 ar yr 530 preswyl yn y gymuned sydd yn cynhyrchu incwm o £17,490.00.

15. MATERION CYNLLUNIO.

A. Cais Cynllunio 23/2002/1020 – Estyniad dau lawr i'r Ochr y Preswyl yn 22 Caer Felin, Llanrhaeadr – dim gwrthwynebiad.

B. Penderfyniadau Cyngor Sir Ddinbych:-

1. Caniatáu Cais Cynllunio 23/2022/0344 - Codi 3 annedd gan gynnwys gosod gwaith trin pecyn, ffurfio mynedfa i gerbydau a gwaith cysylltiedig ar dir yn Llwyn Afon, Llanrhaeadr.

2. Gwrthod cais 23/2022/0319 - Datblygu 0.5ha o dir trwy godi 6 annedd tai cymdeithasol (cais amlinellol gan gynnwys mynediad) ar dir ym Mhenbryn Llan, Llanrhaeadr.

16. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Derbyniwyd yr adroddiad canlynol oddi wrth y Cyngorydd Elfed Williams:-

Mae'r eiddew a chodia'ch wedi cael ei dorri yn nol yn ymyl mynedfa'r ffynnon Dyfnog. Mae arwydd yn dynodi mynediad i'r safle wedi ei archebu ac mi fydd yn cael ei gosod yn fuan.

Dwi wedi sefyll lawr ar ôl 10 mlynedd fel cadeirydd Ffynnon Dyfnog. Y Cadeirydd newydd ydi J P Williams Plas Dyfnog.

Dwi wedi holi am arwydd cyflymdra 30 milltir yr awr a'r ffordd Rhuthun a pryd fydd hwn yn cael ei symud ymhellach am Rhuthun. Mae'r gwaith o'i symud wedi ei glustnodi ar gyfer mis Chwefror ond

dim ond i'w gael ei symud i ymyl safle bws wrth dŷ Rhian, sydd yn siomedig, roeddwn yn credu ei fod am gael ei symud i ymyl Glan Aber ond dydi'r Sir ddim yn cytuno a hynny.

Mae ambell i berson lleol wedi gofyn am linellau melyn ar y ffordd wrth fynedfa'r fynwent i lawr i fynedfa Min y Coed. Hoffwn gael ymateb Cyngor Cymunedol Llanrhaeadr ar hyn, cytuno neu anghytuno?

Mae cynlluniau am y tri thŷ lle'r oedd y safle garddio ar y ffordd i Ddinbych wedi cael ei basio. Mae'r cynlluniau am y chwe thŷ ar dir Penbrynllan wedi cael ei wrthod ar hyn o bryd hyn nes gall Elfyn a Meinir Jones dangos yn gliriach bod galw am y tai fforddiadwy yn lleol. Dwi wedi tynnu sylw Sir i goeden sydd yn pwysu ar gablau Openreach rhwng Saron am Gefn Maen Uchaf.

Dwi wedi danfon at Gwyn y ddogfen ymgynghoriad ar yr ardaloedd blodau gwyllt. Mae'r ddogfen wedi clustnodi'r darn tir sydd wrth ochr y ffordd wrth ymyl y siop. Pryd trafodwyd hyn o'r blaen yn y Cyngor Cymunedol roedd cefnogaeth i hwn cael ei gynnwys ond os gallwch drafod hyn i ddatgan os ydych dal yn gefnogol i'r darn tir yma gael ei gynnwys buaswn yn ddiolchgar.

Mae'r swyddog gorfodi i fod wedi mynd allan i Brŷn Morfydd i drafod gofidion y Cyngor Cymunedol a rhai trigolion lleol bod yr amodau gwaith ddim yn cael ei chyflawni ond hyd yma dwi ddim wedi cael ymateb i'r ymweliad.

17. MATERION BRYS O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Dir Ddinbych at y problemau ffyrdd canlynol:-

- A: Ffordd rhwng cyffordd Pen-y-groes ac Ysgol Pant Pastynog.
- B: Ffordd rhwng cyffordd Pen-y-groes, Prion ar draws at ffordd Peniel (heibio Rhewl Valley).
- C: Ffordd rhwng cyffordd Pen-y-groes, Prion tuag at Brŷn Mulan.
- D: Ffordd rhwng cyffordd Pen-y-groes, Prion tuag at Gapel Prion.
- E: Dwr yn cynilo ar y ffordd rhwng Pentre Farm a Llindir Bach yn Llanrhaeadr.
- F: Ffordd rhwng Llan Llanrhaeadr tuag at Brion.
- G: Broblem gap ar ochr y ffordd ar ôl cael tarmac newydd ar ffordd Y Glyn tuag at Penbrynllan yn Llanrhaeadr.
- H: Ychwanegu'r llinell ddwbl felyn heibio'r Lodge tuag at yr Kings Head yn Llan Llanrhaeadr.

18. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - NOS LUN 27AIN O CHWFROR 2023 AM 7.30 O'R GLOCH YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEDR.